# DWY GAN Newydd.

---

Y GYNTAF,

## *Cerdd Newydd,*

AM UN A GONDEMNIWYD I GAEL EI DRANSPORTIO,

Am Weithred nad oedd yn euog.

---

YR AIL,

## CERDD ALARUS,

O hanes Merch Ieuanc

A LADDODD EI PHLENTYN.

# Cerdd Newydd,

## Am un a gondemniwyd i gael ei dransportio,

### AM WEITHRED NAD OEDD YN EUOG

1 FFARWEL f'o i fir Forganwg lon,
Dymunai'n dda i'r deyrnas hon;
'Rwy'n gorfod gadael tir fy ngwlad,
Fy ffrynds i gyd, a'm hanwyl dad.

2 'Rwy'n gorfod myned maes o'm tre',
I wledydd dyeithr na's gwn p'le,
Dros y geirwon foroedd mawr,
Cyn rhoddi dim o'm pwys ar lawr.

3 Pan yn nghaftell tref Caerdydd,
Dymuno oeddwn yno o hyd,
Y cawfwn rodio tir fy ngwlad
I gael confforddio'm hanwyl dad.

X 29.5199320

4 Y *judge* a'r *jury* oedd yno'n llyn,
Pallasant im' y ffafr hyn,
Ond codi'm llaw ar y *bar* ar g'oedd,
A'r *jury* yn dywedyd, " Euog oedd."

5 Fe'm dodwyd yn y carchar dŷ,
Heb im' gael gweled goleu'r dydd;
A'r 'ffeiriad hefyd oedd ar ei waith,
Yn gyru f'enaid i ben ei daith.

Daeth un o weision ffyddlon Duw,
I gyrchu ataf yno yn wiw,
Gan ddweud ei eiriau hardd i ma's,
Nes oedd fy enaid yn cael blas.

7 Duw roddo'm mhechod mawr yn rhydd,
Os caiff fy nghorff ei brynu yn ddrud,
Ac a'm derbynio yn ei gol,
Pan ddarfu'm trwbl yma ar g'oedd.

8 Mae genyf anwyl ffrynd yn bod,
Yn nhref Caerdydd mi garia'i chlod,
Ond tyner iawn oedd hon i mi
Pan oeddwn yn y carchar dŷ.

Bendith Duw fo'i wraig y tŷ,
I dreulio ei dyddiau gydâ ni;
A Iesu Grist f'o iddi'n glud,
Pan fyddo'i yn gadael hyn o fyd.

10 Dymunaf dda i bawb trwy'r byd,
Ac i fon'ddigion bawb eu gyd,
Ac i'n Brenin tirion mwyn
Am fafio'm bywyd, a gwrando'm cwyn.

11 Nid wyf ond yfgafn ar fy nhroed,
O gwmpas tair ar hugain oed,
Yn gorfod 'madael â thir fy ngwlad,
A thori calon mam a thad.

12 Os gofyn neb mewn bro a bryn,
Pwy luniodd y llinellau hyn;
W ac M, llythrenau clir,
Wna enw'r mab fu rhwng y gwir.

# CERDD ALARUS,

O

# Hanes Merch Ieuanc

## A LADDODD EI PHLENTYN.

---

1 GWYR a gwragedd, meibion, merched,
A phawb ereill, chwi gewch glywed,
Am *bart* o gyffes, hanes aelwydd,
Am ferch oedd wedi anghofio'r Arglwydd.

2 Pethau'r byd, 'doedd dim yn eisiau,
Aur ac arian ar y goreu.
Y penaf peth ollyngai yn ango',
Cael gras gan Dduw i'w chynnorthwyo.

3 Yr oedd yn aros yn gyffredin,
Yn sir Gaerloyw, yn mhentre'r Werin;
O bryd a gwedd 'roedd hi cyn laned,
Braidd ag un ferch a'r a aned.

4 Gydâ'r gwas hi a orweddai,
Ac mewn agwedd a feichiogai;
Ac wrth ei thâd fel hyn a dd'wedai,
"Eisiau sy' arnaf fyn'd i siwrnai."

5 Ar ddydd gwyl Bedr yn y boreu,
Ei gwas a'i morwyn hi gymmerai,
A thua'r Bath hwy aent yn uniawn,
Mewn garw feddwl, trwm oer foddion.

6 Y drydydd nôs ar ôl myn'd adre',
Ar 'chydig ddolur cai ei *delivro;*
A'i cholaid wirion, hi laddai'n farw,
Cyn llefain gwaedd, â'i lliain gwddw'.

7 Ei morwyn oedd yn bur ddiniwed,
Heb ynddi feddwl drwg na gweithred;
Ae at y fan lle'r oedd hi'n cysgu,
A chuddiai'r gelain dan y gwely.

8 Breuddwydiai'r gwas y noswaith hono,
Bod ei feistres yn ymrwyfo,
Ac yn esgor ar ddyn bychan,
A lladd hwn â'i llaw ei hunan.

9 Y dydd dranoeth hi a lefarai,
Ni allwn bellach gychwyn adre',
'Rwyf yn ymglywed cyn iachufed
O boen a bum er pan y'm ganed.

10 Gofynai'r gwas yn bur ddychrynllyd,
" P'le mae fy mhlentyn i f' anwylyd?
Chwi gawfoch neithiwr efgor arno,
Deuaf yn eich gwydd a mammaeth iddo."

11 Un gair o'i phen ni ddywedafid wrtho,
Ond bod eu deurydd yn drwgliwio,
I fiop marfiandwr yr ae yn fydyn,
Ac yn eu gwŷn hi brynai wenwyn.

12 Am *bint* o *Sack* yn fuan galwodd,
Ac ynddo yn rhwydd y gwenwyn rhoddodd,
Gan ddywedyd, " Yfwch hwn bob dafan,
Pe b'ai fe'n 'chwaneg i chwi'ch hunan."

13 'Rol yfed hwn, dechreuodd glwyfo,
Mewn afiach wedd a fwy-fwy chwyddai;
Ac wrth ei feiftres fe lefarai,
" Mi fyddaf dyft yn dy erbyd dithau."

14 Y ferch yn fedrus iawn a ddywedodd,
Aur ac arian iddynt rifodd,
Gan ddweud gael newydd oddi gartre',
Fod ei thâd ar derfyn angeu.

15 Yn mhen tridiau ar ol ei gladdu,
Cawd corff y plentyn dan y gwely;
Anfonwyd ar eu hol mewn dychryn,
Gan 'maflyd yn y ferch a'r forwyn.

16 Y forwyn aeth i'r jail yn uniawn,
A'r ferch a fafai dan feichnion,
I aros y Seffiwn fawr a'r gyfraith,
Pwy oedd euog o'r farwolaeth.

17 Pan ddaeth y gyfraith i fyn'd drofti,
Difgynodd ar y forwyn heini';
Yn ddygn galwai ar Grift o ddifri',
"Duw tro'r elyniaeth i'r goleuni."

18 O flaen y fainc yr yfbryd fafai,
A megis plentyn rhwng ei freichiau;
Yn uchel llefai'r ddau ar unwaith,
Y llall fy'n euog o'r farwolaeth.

19 Y ferch a ddywedai'n hŷ er hyny,
"Ai wrthyf fi mae fe'n llefaru?
Y fi fydd euog o'r farwolaeth,
Trwm a dygn gofpedigaeth."

20 Ei thad yn egr a gynnygai,
Ei phwyfo o aur a *phafio* ei eiriau;
Ac etto er hyn hi ga'dd ei cholli,
Ei gyd i'r gwydd mae'r gwaed yn gwaeddi.

DIWEDD.